



Cymorth InfoBase

- [Hafan](#)
- [Adroddiadau](#)
- [Mapiau a Thablau](#)
 - [Map](#)
 - [Tablau](#)
- [Chwilio](#)
- [Cyhoeddiadau](#)
- [Dolenni](#)
- [Ble mae fy nghod post?](#)
- [Amserlen rhyddhau data](#)
- [Man i Aelodau](#)
- [Cymorth pellach](#)

Hafan

Seilir y ddogfen gymorth hon ar ein system ledaenu InfoBaseCymru ac mae'n bosibl na fydd rhai swyddogaethau ar gael mewn systemau InfoBase eraill. O InfoBaseCymru y daw pob ciplun sgrin.

Eich dewisiadau

Cewch chi ddewis eich iaith drwy glicio ar y blwch dewis iaith ar ochr dde brig y sgrin. Mae gennych chi'r dewis Cymraeg neu Saesneg. Cewch chi newid eich dewis ar unrhyw adeg, er argymhellir nad ydych chi'n gwneud hyn o'r tu mewn i adroddiad. Hefyd gallwch chi newid yr iaith sydd orau gennych fel bod y system yn ei chofio pan ddewch yn ôl ati. Mae modd gwneud hyn drwy glicio ar 'opsiynau iaith' ar waelod i sgrin a dewis eich iaith.

Gallwch chi fynd at wahanol elfennau'r system dwy'r dolenni sydd ar yr ochr chwith neu'r eiconau sydd yng nghanol y dudalen.

Mae gennych chi nifer o opsiynau:

- [Adroddiad eich ardal leol](#): rhowch gôd post ac edrychwch ar adroddiad sy'n rhoi trosolwg i chi o'r ardal leol honno, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd yn y system.
- [Adroddiadau](#): edrychwch ar adroddiadau yn ôl thema, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd yn y system.
- [Mapiau a thablau](#): edrychwch ar grwpiau o ddangosyddion o dan thema mewn map neu dabl.
- [Chwilio](#): chwiliwch gynnwys y system i ddod o hyd i'r wybodaeth mae gennych chi ddiddordeb ynddi.

- Cyhoeddiadau: edrychwch ar gyhoeddiadau y mae modd mynd atyn nhw drwy'r system.
- Dolenni: dolenni defnyddiol â gwefannau sydd â gwybodaeth gysylltiedig.
- Ble mae fy nghod post? Rhowch gôd post i ddarganfod pa ardaloedd gweinyddol ac ystadegol mae ardal yn dod i mewn iddyn nhw, er enghraifft pa awdurdod lleol.
- Amserlen rhyddhau data: edrychwch ar amserlen sy'n rhoi manylion pryd bydd pob set ddata yn cael ei diweddarau.

Themâu

Hefyd gallwch chi edrych ar adroddiadau, mapiau a thablau drwy'r tab 'themâu' yn y ddewislen ar y chwith:


☰ Hafan
☰ Adroddiadau
☰ Mapiau a thablau
☰ Themau
Pobl
Economi
Addysg
Iechyd
Tai
Diogelwch cymunedol
Yr Amgylchedd
Trafnidiaeth
Amddifadedd
Cyllid awdurdodau lleol
Perfformiad awdurdodau lleol
☰ Cyhoeddiadau
☰ Chwilio
☰ Dolenni
☰ Ble mae fy ardal?
☰ Amserlen rhyddhau data
☰ Help

Themâu

Yna fe welwch restr o'r themâu sydd ar gael fel pobl a thai. Wrth glicio ar yr un rydych ei heisiau bydd rhestr o adroddiadau, mapiau a thablau ar y thema honno'n cael ei rhoi i chi. Cewch chi edrych ar y rhain fel y disgrifir uchod.

Eich adroddiad ardal leol chi

Mae ond angen teipio côd post mae gennych ddi-ddordeb ynddo yn y blwch glas 'Your Eich Adroddiad Ardal leol Chi' a chlicio'r botwm 'Ewch'. Bydd adroddiad am yr ardal hon yn cael ei gynnig i chi ei weld.



^ brig ^

Adroddiadau

Mae adroddiadau yn cyflwyno data am ddaearyddiaeth benodol gan ddefnyddio testun, tablau, siartiau a delweddau. Cewch lywio i adroddiad drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r tabiau isod:

- Yn ôl Thema: cliciwch y symbolau '+' i ehangu'r themâu sydd ar gael. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb (er enghraifft, pobl) a daearyddiaeth (er enghraifft, ardal leol).
- Yn ôl Daearyddiaeth: cliciwch y symbolau '+' i ehangu daearyddiaeth. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.
- Fel rhestr: defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.
- Chwilio: teipiwch derm i chwilio amdano a chliciwch chwilio. Defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.

Cliciwch ar y penawdau adran o dan deitl yr adroddiad i neidio i adran benodol. Cliciwch yr eiconau gwybodaeth (i) i weld mwy o wybodaeth (metadata) am y dangosyddion a gynhwysir yn yr adroddiad. Os oes siartiau'n bresennol, cewch symud pwynt y llygoden dros far neu linell er mwyn dangos awgrym gyda gwybodaeth bellach.

^ brig ^

Mapiau a Thablau

Cyflwyniad

Gallwch lywio i fap neu dabl gan ddefnyddio unrhyw rai o'r tabiau isod:

- Yn ôl Thema: cliciwch y symbolau '+' i ehangu'r themâu sydd ar gael. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.
- Yn ôl Daearyddiaeth: cliciwch y symbolau '+' i ehangu daearyddiaeth. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.
- Fel rhestr: defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.
- Chwilio: teipiwch derm i chwilio amdano a chliciwch chwilio. Defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb.

Ar ôl i chi glicio pwnc sydd o ddiddordeb, bydd yr opsiynau i'w weld yn ymddangos. Gall y mapiau a thablau fod ar gael am fwy nag un ddaearyddiaeth. Am bob daearyddiaeth bydd nifer o opsiynau gweld ac allforio ar gael.

^ brig ^

I weld mapiau, mae angen bod gennych Adobe Flash Player 9 neu fersiwn ddiweddarach wedi ei osod ar eich cyfrifiadur. Cewch chi lawrlwytho'r Flash Player o <http://get.adobe.com/flashplayer/>

Mapio Rhygweithiol InfoBase

Mae InfoBase yn arddangos data mewn modd syml sydd yn gadael i chi weld data fel:

- Tabl data safonol.
- Map côd lliwiau o Gymru.
- Siart côd lliwiau ar werthoedd ar draws ardaloedd.

Defnyddio'r system

I ddechrau defnyddio'r system cliciwch y botwm:

Dewis eitem ddata neu newid cyfnod amser

Cewch weld rhestr o'r data sydd ar gael. Dewiswch yr eitem ddata a'r flwyddyn o ddiddordeb ac fe fydd y dangosydd yn cael ei ddiweddarau.

Ar gyfer pob un o'r eitemau data, mae amrediad y gwerthoedd ar draws Cymru yn cael eu gwahanu i gyfyngau, â phob un ohonynt â lliw cyfatebol – gwelwch allwedd yr amrediad data.

I glirio'ch dewisiadau a dechrau eto, cliciwch botwm dde y lygoden, a deisiwch "Dechrau eto".

Amlygu a dewis ardaloedd

I'ch helpu chi i ddadansoddi a chymharu, mae'r system yn gadael i chi amlygu un ardal neu fwy ar draws pob math o siart.

I amlygu ardal - hofrwch dros ardal mewn naill ai tabl data, map neu siart bar. Cliciwch i ddewis ardal(oedd).

I amlygu'r holl ardaloedd mewn categori penodol yn yr amrediad - hofrwch dros ddangosydd lliw'r allwedd. Pan fyddwch yn symud y lygoden i ffwrdd bydd yr amlygiad yn diflannu. Fe fydd ardaloedd yr ydych wedi eu dewis wedi'u lliwio'n oren ym mhob siart.

Tabl Data

Mae'r tabl data yn rhestri pob ardal sydd â data ar gyfer y dangosydd yr y'ch chi wedi ei dewis. Cewch newid y ffordd mae'r data'n ymddangos yn y tabl fel a ganlyn:

Trefnu'r colofnau:























Cliciwch ar bennawd colofn i drefnu'r tabl (esgynnol/disgynnol) yn ôl gwerthoedd y golofn hynny. Bydd yr ardaloedd yn symud yn ôl trefn y wyddor, a gwerthoedd y parth yn rhifol.

Addasu lled y golofn:

Hofwrch dros y rhannwr rhwng penawdau'r golofn, ac fe fydd saethau ochrol yn ymddangos. Cliciwch a llusgwch y rhannwr i addasu lled y golofn.

Dewis nodweddion:

Cliciwch enw ardal i ddewis yr wybodaeth. Bydd yr ardal yr y'ch chi wedi dewis wedi ei lliwio'n oren.

	Awdurdod Lleol	Gwerth
	Ynys Môn	6.4
	Gwynedd	7.21
	Conwy	10.82
	Sir Ddinbych	10.16
	Sir y Fflint	Dim data
	Wrecsam	8.23
	Powys	10.25
	Sir Ceredigion	12.19
	Sir Benfro	10.42
	Sir Gaerfyrddin	6.18
	Abertawe	9.33
	Castell-nedd Port Talbot	3.56
	Pen-y-bont ar Ogwr	6.43
	Bro Morgannwg	6.27
	Rhondda Cynon Taf	6.57
	Merthyr Tudful	23.58
	Caerffili	8.86
	Blaenau Gwent	7.94
	Torfaen	13.08
	Sir Fynwy	8.29
	Casnewydd	11.88
	Caerdydd	11.23

Chwyddo ardal:

Cliciwch ar yr icon i chwyddo'r map yn yr ardal hon.

Metadata daearyddol:

Cliciwch ar yr icon i weld metadata am y math o ardal.

Map

Mae'r map yn arddangos pob ardal yng Nghymru, â chod lliwiau yn ôl pa categori y mae'r eitem ddata yn rhan ohono.


I weld enw a safle ardal benodol:

Hofrwch dros ardal yn y map.

Cliciwch ar ardal(oedd) y map i ddewis gwybodaeth ar yr ardal.

Mae bar offer y map yn perfformio'r swyddogaethau canlynol:


Ailfeintio'r map (ehangu/lleihau)



Haenau'r map

Mae hyn yn gadael i chi ddewis y ffiniau sy'n cael eu harddangos ar y map fel cyfeirnod. Bydd clicio ar haen y map yn ei throï ymlaen, a'i chlicio eto yn ei throï i ffwrdd.

Mae mapio cyferio ar gael hefyd. Fe fydd hyn yn rhoi cyd-destun gofodol i'r map wrth ychwanegu trefi, hewlydd a nodweddion eraill.




Ffilter

Mae'r fwydlen hon yn gadael i chi ddewis yr ardaloedd hynny yn unig sydd yn rhan o'r ardal ffilter. Fe fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y map, tabl data a'r tabl parth. Cliciwch ar ardal ffilter i droi hyn ymlaen. Mae yna opsiwn i droi'r ffilter i ffwrdd.

Ffilitro i ardal:

Cliciwch ar yr icon i ffilitro'r tabl data a'r map.



Dileu'r ffilter

Cliciwch ar yr icon i dileu'r ffilter.

Siart Gwerthoedd rhwng Ardaloedd

Mae'r siart gwerthoedd rhwng ardaloedd yn cynnwys bar ar gyfer pob un ardal sydd wedi cyflwyno data ar gyfer yr eitem ddata yr ydych wedi ei dewis. Mae'r barrau'n cael eu harddangos yn esgynnol ac wedi eu cysgodi yn ôl gwerth yr eitemau data.

I arddangos enw'r ardal â'i werth - Hofwrch dros y bar.


Cliciwch ar y bar(rau) i ddewis awdurdod(au). Bydd yr awdurdod yr ydych wedi ei ddewis wedi ei liwio'n oren.



Siart gwerthoedd dros amser

Mae'r siart gwerthoedd dros amser yn dangos gwerthoedd data yr ardal(oedd) dros amser ar gyfer yr eitem ddata hynny (lle bo data'n bodoli).

I weld enw'r ardal a'i werth ar gyfer blwyddyn o'ch dewis - hofrwch dros 'pwynt' y flwyddyn.



Animeiddiad dros amser


Mae modd defnyddio'r cydran yma i arddangos gwerthoedd data dros amser ar gyfer yr ardal(oedd) i gyd mewn ffurf animeiddiad. Cliciwch ar y bar ar gyfer newid cyfnod amser y data sy'n arddangos yn yr adroddiad.



Defnyddiwch yr arwyddion i symud y cyfnod amser ymlaen neu yn nol, neu defnyddiwch y botwm siap triogl i arddangos pob cyfnod amser yn ei tro.

Nodweddion yr allwedd

Mae nodweddion yr allwedd yn gadael i chi newid diwyg yr atlas. Yn yr opsiwn hwn, gallwch chi newid lliw'r map, dewis faint o ddsbarthiadau mae arnoch chi eu heisiau a phenderfynu ar dryloywder y map. Mae'r nodwedd tryloywder yn opsiwn da os ydych wedi dewis y map cefndir.




Plot gwasgaru

Mae plotiau gwasgaru ar gael mewn mapiau dwbl.

Drwy ddethol y ddau ddangosydd yr hoffech eu gweld, rydych yn llenwi'r plot gwasgaru â'r gwerthoedd am y ddau ddangosydd ar gyfer bob ardal.

	Awdurdod Lleol	Map Uwch	Map Gwaelod
🔍	Ynys Môn	22.8	52.81
🔍	Gwynedd	18.92	63.09
🔍	Conwy	23.07	61.16
🔍	Sir Ddinbych	18.8	66.16
🔍	Sir y Fflint	21.83	57.51
🔍	Wrecsam	21.75	67.88

- = dim data, * = data wedi'i ddatgelu



Er enghraifft mae'r plot gwasgaru uchod yn dangos y dangosyddion WMT/001i – Gwastraff wedi ei aildddefnyddio/ailgylchu (%) ar yr echel-x lorweddol, yn erbyn WMT/004 – Gwastraff wedi ei ddanfôn at dirfenwi (%) ar yr echel-y fertigol.

I weld enw'r ardal a'r gwerthoedd am y ddau ddangosydd, hofranwch dros y 'pwynt' penodol, e.e. Conwy yn yr enghraifft uchod.

Mae'r llinell las yn dangos y gydberthynas gyffredinol rhwng y ddau ddangosydd.


Tabl Aml-Ddangosydd

Mae tablau aml-ddangosydd ar gael mewn mapiau perfformiad.

Mae'r tabl hwn yn dangos yr holl ddangosyddion ar gyfer yr awdurdod aydd wedi ei ddewis. Dewiswch awdurdod lleol drwy glicio arno ar y map neu'r tabl, yna cliciwch

Multi-Indicator Table

i gyrchu'r tabl aml-ddangosydd.



Dangosir gwerthoedd dangosydd yr awdurdod fel bar llorweddol ar ben amrediad lliw. Mae'r amrediad lliw yn cynrychioli'r chwarterli unigol. Mae'r rhifau ar bob pen yr amrediad lliw yn cynrychioli'r gwerthoedd isaf ac uchaf ar gyfer y dangosydd hwnnw i bob awdurdod.

Mae'r allweddol ar waelod y tabl yn dangos enw'r awdurdod sydd wedi ei ddewis, a hefyd yn esbonio'r lliwiau sy'n cynrychioli pob chwarterl.

Drwy glicio ar ddangosydd yn y tabl, bydd y map, y siartiau gwerthoedd dros amser a gwerthoedd am bob ardal yn newid i gynrychioli'r dangosydd sydd wedi ei ddewis.


Argraffu Adroddiadau

Gallwch deilwro cynnwys a gosodiad yr adroddiad cyn argraffu. Cewch ddileu, ailfeintio a symud pob elfen (tabl, siart, map) ar y sgrin. Hofrwch dros cornel uwch ochr dde yr elfen i ddatgelu bar offer bychain.

- ✕ Cliciwch ar y groes er mwyn dileu'r elfen
- Cliciwch y botwm yma i ailfeintio'r elfen
- ☰ Cliciwch y botwm yma i lusgo'r elfen i safle newydd ar yr adroddiad

I argraffu'r adroddiad fel y mae'n ymddangos:


Cliciwch botwm dde y lygodyn, a dewiswch "Rhagolwg Argraffu". Bydd ffenest yn ymddangos gyda opsiynau i deilwro'r beth sy'n cael ei argraffu. Mae modd argraffu'r adroddiad gyfan, neu argraffu elfennau ar wahan. Hefyd mae modd cuddio'r botymau, delweddau neu'r cefndir.



Mae modd dewis i argraffu'r adroddiad mewn dau fformat: "Vector" neu "Bitmap". Os oes angen i'r haenau fod rhywfaint yn dryloyw – dewiswch "Argraffu fel Vector", os bod dim angen unrhyw haen i fod yn dryloyw - dewiswch "Argraffu fel Bitmap" sydd yn argraffu gyda'r ansawdd gorau.

Opsiynau clicio'r botwm de


Drwy glicio'r botwm de unrhyw le ar y sgrin yma byddwch yn cael mwy o opsiynau i ddewis o'u plith. Mae rhai o'r opsiynau hyn ar gael ar y sgrin eisoes ar ffurf botymau.



Allforio Adroddiadau

Yn yr un modd ag argraffu adroddiad, mae'n bosib allforio adroddiad yn gyfan gwbl neu dim ond elfenau ar wahan, naillai fel fformat .jpg neu .png. Unwaith yn rhagor mae'n bosib cuddio'r botymau, delweddau neu'r cefndir wrth allforio.

I allforio, cliciwch botwm dde y lygoden a dewiswch "Allforio".



^ brig ^

Tablau

I ddechrau bydd y tabl yn dangos y data diweddaraf am bob dangosydd sydd ar gael gyda'r tabl hwnnw. Gall y data a ddangosir gael ei newid gan ddefnyddio'r opsiynau a esbonnir ar frig y dudalen.

Defnyddiwch yr opsiynau hyn i ychwanegu:

- yr holl ddata;
- dyddiadau diweddaraf yn unig;
- dyddiadau dethol;
- cymdeithion (y data a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dangosydd); neu
- ailosod y tabl.

Gallwch ddiolli'r tabl drwy glicio ar bennawd colofn. Gallwch dynnu dangosyddion o'r tabl drwy glicio ar eicon y groes.

Bydd manau cymharu yn cael eu dangos ar waelod y tabl.

Gallwch allforio'r tabl mewn fformat CSV, XML neu Excel gan ddefnyddio'r eiconau yn uniongyrchol uwchben y tabl. Cliciwch yr eicon e-bost bach i anfon neges e-bost gyda dolen â'r dudalen rydych yn edrych arni.

Cliciwch yr eicon argraffu ar frig y dudalen i argraffu'r tabl. Os oes mapiau ar gael ar gyfer y tabl, gallwch fynd yn uniongyrchol at y map drwy ddefnyddio'r eicon ar frig y dudalen.

[^ brig ^](#)

Chwilio

Gallwch archwilio cynnwys y system a dod o hyd i ddata sydd o ddiddordeb gan ddefnyddio offer chwilio syml drwy deipio mewn term chwilio. Dangosir canlyniadau'r chwiliad o dan gyfres o dabiau: Mapiau a Thabiau, Daearyddiaethau, Dangosyddion, Adroddiadau a Chyhoeddiadau.

Cliciwch y tab sydd o ddiddordeb i weld canlyniadau'r chwiliad. Defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch bwnc sydd o ddiddordeb. Yn achos pob eitem gallwch weld y metadata.

[^ brig ^](#)

Cyhoeddiadau

- Yn ôl Thema: cliciwch y symbolau '+' i ehangu'r themâu sydd ar gael. Yna cliciwch gyhoeddiad o ddiddordeb.
- Fel rhestr: defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch gyhoeddiad sydd o ddiddordeb.
- Chwilio: teipiwch derm i chwilio amdano a chliciwch chwilio. Defnyddiwch yr opsiynau o dan y rhestr i bennu nifer yr eitemau i'w dangos a'r botymau nesaf ac yn ôl i lywio'r rhestr. Yna cliciwch gyhoeddiad sydd o ddiddordeb.

^ brig ^

Dolenni

Yma fe welwch ddolenni â gwefannau allanol defnyddiol. Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys na dibynadwyedd y gwefannau cysylltiedig ac nid ydym o reidrwydd yn cefnogi'r farn a fynegir ynddynt. Ni ddylid cymryd ein rhestr o'r gwefannau hyn fel cymeradwyaeth o unrhyw fath.

^ brig ^

Ble mae fy nghod post?

Mae Ble mae fy nghod post yn rhoi gwybodaeth am y daearyddiaethau gweinyddol ac ystadegol sy'n gysylltiedig â chod post penodol. Gallwch ddefnyddio 'Enw ardal leol' i ddod o hyd i adroddiadau, mapiau a thablau drwy gydol y system.

^ brig ^

Amserlen Rhyddhau Data

Yn rhoi manylion pob set ddata yn ôl y mis y disgwylir i'r ffynhonnell ei diweddarau. Bydd Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru yn diweddarau pob set ddata o fewn pum diwrnod ar ôl i'r ffynhonnell ei rhyddhau. Mae'r amserlen rhyddhau wedi ei seilio hyd eithaf ein gwybodaeth ar y data rhyddhau yn y ffynhonnell. Bydd oedi wrth ryddhau'r setiau data yn y ffynhonnell yn peri oedi i'r data ymddangos ar InfoBase.

Man i aelodau

Nid oes angen mewngofnodi i InfoBase i weld unrhyw rai o'r mapiau, tablau a siartiau.

Cymorth pellach

Os oes angen cymorth pellach arnoch chi neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill defnyddiwch y cyfleuster adborth <http://www.infobasecymru.net/IAS/feedback>.

^ brig ^